

Cynllun Datblygu Lleol Powys

Datganiad Mabwysiadu

17 Ebrill 2018



**Deddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004,
Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004
(Rheoliad 16),
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
(Fel y'u Diwygiwyd) (Rheoliad 25)**

CYNNWYS

Rhagarweiniad	2
Rhan 1: Datganiad Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol	2
Rhan 2: Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004	3
• Trosolwg	3
• Gofynion Mabwysiadu	4
• A. Y Cynllun Mabwysiedig	4
• B. Sut y cafodd ystyriaethau amgylcheddol eu hintegreiddio yn y Cynllun Datblygu Lleol	5
• C. Sut yr ystyriwyd yr Adroddiad Amgylcheddol	7
• D. Sut yr ystyriwyd safbwyntiau a barn o ganlyniad i ymgynghori	11
• E. Sut yr ystyriwyd canlyniadau unrhyw ymgynghori trawsffiniol	12
• F. Y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen fabwysiedig, yng ngoleuni'r opsiynau rhesymol eraill a ystyriwyd	12
• G. Y mesurau sydd i'w cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r cynllun	13
Gwybodaeth Bellach	14

Rhagarweiniad

Yn unol â gofynion Rheoliad 25(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliad 16 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Mabwysiadu a chwrdd â gofynion mabwysiadu penodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Powys.

Mae Rhan 1 o'r datganiad hwn yn ymwneud â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). Mae Rhan 2 yn cwrdd â gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

Rhan 1: Datganiad Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Powys

1.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Powys (CDLI) ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Powys (y Cyngor) ar

17 Ebrill 2018.

1.2 Daeth y CDLI yn weithredol fel y cynllun datblygu ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys yn syth ar ôl ei fabwysiadu gan ddisodli Cynllun Datblygu Unedol Powys (a fabwysiadwyd yn 2010).

1.3 CDLI Powys yw'r cynllun datblygu ar gyfer sir Powys (ac eithrio'r ardal sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae'n disgrifio'r prif bolisiau a'r dyraniadau defnydd tir ar gyfer creu dyfodol ardal y cynllun, ac i dywys datblygu, tan 2026.

1.4 Dechreuodd yr Archwiliad Cyhoeddus annibynnol o CDLI Powys drwy ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2016. Dechreuodd y Gwrandawriadau Cyhoeddus ar 28 Mawrth 2017 gan ddod i ben ar 10 Ionawr 2018. Cyflwynwyd Adroddiad yr Arolygydd, sy'n ddogfen rhwymol, i'r Cyngor ar 15 Mawrth 2018.

1.5 Mae copïau o'r canlynol:

- y CDLI mabwysiedig;
- Adroddiad yr Arolygydd;
- yr Adroddiad Amgylcheddol yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) o'r CDLI;
- yr Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd (SA);
- yr Adroddiad ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA); a
- y Datganiad Mabwysiadu

ar gael i'w harchwilio'n ddi-dâl yn y Swyddfeydd Cyngor canlynol yn ystod oriau swyddfa arferol rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys;
- Y Gwalia, Llandrindod, Powys;
- Neuadd Brycheiniog, Aberhonddu, Powys; a
- Neuadd Maldwyn, Y Trallwng, Powys.

- Mae'r CDLI mabwysiedig, Adroddiad yr Arolygydd, a'r Datganiad Mabwysiadu hefyd ar gael i'w darllen ym mhob llyfrgell gyhoeddus drwy'r Sir.

1.6 Mae amseroedd agor y swyddfeydd hyn ar gael ar y wefan ganlynol; <http://www.powys.gov.uk/cy/gwasanaethau-cwsmer/mannau-gwasanaethau-cwsmer-swyddfeydd-y-cyngor/> Mae fersiynau electronig o'r dogfennau hyn hefyd ar wefan y Cyngor.

1.7 Mae gan rywun sydd am gwyno ynghylch y CDLI ac eisiau cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a gyflwynir gan Ran 6 o Ddeddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad o dan y Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf yng nghyswllt mabwysiadu'r CDLI, hawl o fewn chwe wythnos i ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun (17 Ebrill 2018), i wneud cais i'r Uchel Lys o dan Adran 113 o Ddeddf 2004.

1.8 Gellir prynu copïau papur o'r CDLI gan y Cyngor ar ddiwedd y cyfnod o chwe wythnos pryd y gall partiön herio dilysrwydd cyfreithiol y Cynllun, os nad oes unrhyw her o'r fath. Wele'r adran Gwybodaeth Bellach ar ddiwedd y ddogfen hon am fanylion cyswllt.

Rhan 2: Cydymffurfiaeth Cynllun Datblygu Lleol Powys â Rheoliad 16 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

Trosolwg

2.1 Mae'r adran yma o'r Datganiad Mabwysiadu'n disgrifio sut y mae'r Cyngor wedi ystyried materion amgylcheddol a chynaliadwyedd, a barn yn dilyn ymgynghori, wrth lunio CDLI mabwysiedig Powys, a chyflawni'r gofynion mabwysiadu ar gyfer cynlluniau a rhaglenni yn unol â Chyfarwyddeb 2001/42/EC ar asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd (y Gyfarwyddeb SEA) a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y Rheoliadau SEA).

Yr Asesiad Amgylcheddol Strategol

2.2 Wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru ateb gofynion y Gyfarwyddeb SEA. Mae'r Gyfarwyddeb SEA wedi'i hymgorffori yng nghyfraith Cymru drwy'r Rheoliadau SEA. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod cynlluniau a rhaglenni'n cael eu hasesu am eu heffeithiau ar yr amgylchedd ac yn ceisio....;

"...darparu lefel uchel o warchodaeth i'r amgylchedd a chyfrannu at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol o fewn y gwaith o baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni, gyda golwg ar hybu datblygu cynaliadwy...." (Erthygl 1 o'r Gyfarwyddeb SEA).

2.3 Mae'r SEA yn broses systematig a ddyfeisiwyd i werthuso effeithiau disgwylidig cynlluniau a rhaglenni fel y CDLI ar gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu rhagweld, nod y SEA yw canfod ffyrdd o osgoi neu liniaru'r effeithiau hynny; lle mae effeithiau cadarnhaol i'w disgwyl, mae'r asesiad yn ceisio gwella ar yr effeithiau hynny. Yn y cyd-destun hwn, mae'r SEA wedi'i gyflawni drwy gydol o broses o ddatblygu CDLI Powys, gyda phob prif gam ym mharatoad y Cynllun yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol, a baratowyd i gwrdd â gofynion adrodd y

Gyfarwydddeb SEA a'r Rheoliadau SEA, er mwyn integreiddio ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd o fewn datblygiad y Cynllun. Mae'r gwaith SEA a wnaed i gefnogi'r CDLI ar gael i'w ddarllen ar wefan y Cyngor.

2.4 Mae'r adran yma o'r Datganiad Mabwysiadu'n cloi'r broses SEA ac yn cyflawni gofynion y Gyfarwydddeb SEA a'r Rheoliadau SEA ar gyfer mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni.

Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

2.5 Cafodd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) hefyd ei wneud o'r CDLI, a wnaed ochr yn ochr â'r SEA a'r SA. Roedd Adroddiad yr HRA yn asesu effeithiau'r Cynllun mewn cyfuniad ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill ar safleoedd gwarchod natur gyda dynodiad Ewropeaidd. Cafodd canfyddiadau'r HRA eu bwydo i'r broses o ddatblygu'r SEA a'r SA, a'r CDLI ei hun (o ran effeithiau posib y CDLI ar fioamrywiaeth). Roedd HRA hefyd yn cyd-fynd â Dogfen Adnau'r CDLI a'r Cynllun mabwysiedig, gydag adroddiad ar wahân. Gweler Cwestiwn B yn y tabl isod.

Gofynion Mabwysiadu

2.6 O dan Reoliad 16 o'r Rheoliadau SEA, pan fydd CDLI yn cael ei fabwysiadu rhaid i ddatganiad fod ar gael i gyd-fynd â'r Cynllun cyn gynted â phosib ar ôl ei fabwysiadu. Mae angen i'r datganiad gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Sut yr integreiddiwyd ystyriaethau amgylcheddol yn y CDLI;
- Sut yr ystyriwyd yr Adroddiadau Amgylcheddol;
- Sut yr ystyriwyd safbwyntiau a barn o ganlyniad i ymgynghori ar yr Adroddiadau Amgylcheddol;
- Sut yr ystyriwyd canlyniadau unrhyw ymgynghori trawsffiniol;
- Y rhesymau dros ddewis y CDLI mabwysiedig, yng ngoleuni'r opsiynau rhesymol eraill a ystyriwyd;
- Y mesurau sydd i'w cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithrediad y CDLI.

2.7 Mae'r tabl isod yn delio â'r gofynion hyn ac yn disgrifio lle y gellir dod o hyd i wybodaeth gysylltiedig. Dylid nodi bod gwybodaeth sylweddol am y materion hyn ar gael mewn dogfennau sydd eisoes yn bodoli, fel yn yr Adroddiadau Amgylcheddol a baratowyd i gefnogi'r CDLI, yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ac Adroddiad yr Arolygydd. Yn unol â pharagraff 8.4.2.3 o Lawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn 2, Awst 2015), yn hytrach na dyblygu'r deunydd hwn, mae'r datganiad hwn yn gwneud croesgyfeiriadau priodol at ddogfennau perthnasol.

Gwybodaeth Ofynnol	Ymateb a lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth
A. Y Cynllun Mabwysiedig	Mae Datganiad Ysgrifenedig a dogfennau Map CDLI mabwysiedig Powys ar Wefan Mabwysiadu CDLI y Cyngor.

<p>B. Sut yr integreiddiwyd ystyriaethau amgylcheddol yn CDLI Powys</p>	<p>Mae ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach wedi bod yn rhan annatod o'r penderfyniadau pwysicaf a wnaed ynghylch polisïau a chynigion CDLI Powys. Llwyddwyd i integreiddio'r ystyriaethau hyn o fewn y broses o lunio'r Cynllun yn bennaf drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddatblygu tystiolaeth gynhwysfawr; • parhau i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd ar y CDLI ar y gweill a materion amgylcheddol a chynaliadwyedd cysylltiedig; • ystyried y polisi cynllunio cenedlaethol ac amcanion cynlluniau a rhaglenni eraill; a • drwy asesu parhaus, yn cynnwys drwy'r SEA, SA a'r HRA. <p>Mae'r asesiadau hyn, ynghyd â thystiolaeth arall o sut yr integreiddiwyd ystyriaethau amgylcheddol yn y CDLI, ar gael o dan y penawdau canlynol:</p> <p><u>1. Y Camau o baratoi CDLI Powys:</u></p> <p>Methodoleg Proses ac Asesu Safleoedd Ymgeisiol (2015). (EB22)</p> <p>Strategaeth CDLI a Ffebrir, Mawrth (2012). (LDP01)</p> <p>Ddrafft Adnau y CDLI (2015), 2011-2026. (LDP06 & LDP07)</p> <p>Atodlen o'r Newidiadau Penodol Arfaethedig – Atodiad i'r CDLI Adnau (Ionawr 2016). (LDP18)</p> <p>Atodlen o'r Newidiadau Penodol Ychwanegol Arfaethedig – Atodiad i'r CDLI Adnau (Hydref 2016). (LDP37)</p> <p>Atodlen o Newidiadau o'r Materion yn Codi – Datganiad Ysgrifenedig (Medi 2017). (ED083b)</p> <p>Y CDLI Mabwysiedig – ar gael ar Wefan Mabwysiadu CDLI y Cyngor.</p> <p><u>2. Arfarniad Cynaliadwyedd (SA)</u></p> <p>Mae'r CDLI wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystod pob cam o'i baratoi. Mae dogfennau'r Arfarniad Cynaliadwyedd terfynol ar gael o dudalen gwe CDLI Mabwysiedig y Cyngor.</p> <p><u>3. Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA);</u></p> <p>Mae'r CDLI wedi bod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystod pob cam o'i baratoi. Mae dogfennau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol terfynol ar gael o dudalen gwe CDLI Mabwysiedig y Cyngor.</p>
---	---

	<p>4. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd; Mae'r CDLI wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod pob cam o'i baratoi. Mae dogfennau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd terfynol ar gael o dudalen gwe CDLI Mabwysiedig y Cyngor.</p> <p>Yn unol â deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, mae sicrhau datblygiad cynaliadwy'n ategu'r CDLI. Mynegir hyn yn y weledigaeth ar gyfer y CDLI:</p> <p><i>“Mae Powys yn sir o amrywiaeth sylweddol gan ymestyn o Gymoedd y De i Fynyddoedd y Berwyn yn y gogledd ac o Fynyddoedd Cambria yn y gorllewin i'r ffin gyda Lloegr yn y dwyrain.</i></p> <p><i>Fel ‘calon werdd Cymru’, bydd Powys yn lle sy'n llawn o gymunedau bywiog a gwydn sy'n cyflwyno cyfleoedd datblygu ac economaidd cynaliadwy mewn amgylchedd iach a diogel, gan ddathlu, gwella a rheoli ei adnoddau naturiol, ei fywyd gwylt a'i gynefinoedd brodorol, ei dreftadaeth, ei dirluniau anhygoel a'i nodweddion unigryw mewn ffordd gwbl gynaliadwy.</i></p> <p><i>Bydd trefi a phentrefi mwy Powys yn ganolfannau gwasanaeth bywiog a hygyrch i bawb. Bydd y lleoedd hyn yn ganolbwynt i integreiddio datblygiadau tai, economaidd a gwasanaeth i ateb eu hanghenion eu hunain ac anghenion eu cymunedau cyfagos.</i></p> <p><i>Bydd ardaloedd gwledig Powys yn gefn gwlad gweithgar o gymunedau cynaliadwy wedi'u cefnogi gan economi wledig ffyniannus ac amrywiol o fusnesau bach.”</i></p> <p>Mae hyrwyddo datblygu cynaliadwy hefyd wedi'i ymgorffori yn yr un-ar-bymtheg o amcanion yn y CDLI.</p> <p>Nod polisiâu a chynigion y CDLI yw cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion, ac yng nghyd-destun hyn, maent yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach. Yn y cyswllt hwn, mae Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016 yn nodi: <i>“y bydd y rhan fwyaf o amcanion yr SEA yn profi effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i weithredu'r polisiâu yn y Cynllun.”</i></p>
--	--

<p>C. Sut yr ystyriwyd yr Adroddiad Amgylcheddol</p>	<p>Mae'r broses o ddatblygu'r CDLI wedi bod yn un ailadroddus iawn. Mae'r SEA wedi chwarae rôl annatod yn y broses ailadrodd hon, gyda phob cam o ddatblygu'r Cynllun wedi cynnwys Adroddiad Amgylcheddol i helpu i oleuo polisiâu a chynigion ar y gweill ac er mwyn integreiddio ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn llawn yn y penderfyniadau.</p> <p>Ym mhob cam o broses y CDLI, ystyriwyd casgliadau'r Adroddiadau Amgylcheddol naill ai er mwyn atgyfnerthu a chefnogi'r cynnwys neu i ysgogi newid y cynnwys er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol y Cynllun, fel y bo'n briodol. Rhoddir trosolwg manwl ar esblygiad y CDLI yn Adran 2 o Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016 oedd yn cyd-fynd â Dogfen Adnau Ddrafft y CDLI (yn ymgorffori'r Newidiadau Penodol a'r Newidiadau Penodol Ychwanegol). Crynhoir y prif gamau gyda pharatoi'r Cynllun isod:</p> <p>Y CDLI Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffafrir) (Mawrth 2012) Bu'r Adroddiad Amgylcheddol yn gymorth i benderfynu ar y Strategaeth a Ffafrir ar gyfer y CDLI drwy asesu'r opsiynau twf tai a phump o wahanol opsiynau gofodol. Rhoddir canlyniadau'r asesiadau hyn yn Atodiad 6a o'r Adroddiad Amgylcheddol ar y Ddogfen Adnau Drafft, Mehefin 2015. (LDP09)</p> <p>Drafft Adnau Cychwynol y CDLI (Gorffennaf 2014) Roedd Adroddiad Amgylcheddol 2014 yn cynnwys asesiad o effeithiau'r elfennau canlynol o'r Cynllun ar yr amgylchedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcanion y CDLI; • Yr opsiynau a ffafir ar gyfer twf tai a chyflogaeth; • Yr opsiwn gofodol a ffafir ac opsiynau rhesymol eraill; • Polisiâu'r CDLI. <p>Drafft Adnau y CDLI (Mehefin 2015) Roedd Adroddiad Amgylcheddol 2015 yn cynnwys asesiad o effeithiau'r elfennau canlynol o'r Cynllun ar yr amgylchedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcanion y CDLI; • Yr opsiynau a ffafir ar gyfer twf tai a chyflogaeth (gan gynnwys opsiynau rhesymol eraill); • Yr opsiwn gofodol a ffafir (gan gynnwys opsiynau rhesymol eraill); • Polisiâu'r CDLI; a • Dyraniadau safle (gan gynnwys opsiynau rhesymol eraill). <p>Casgliad Adroddiad Amgylcheddol 2015 (LDP09) oedd “y bydd y rhan fwyaf o amcanion yr SEA yn profi effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i weithredu'r polisiâu yn y Cynllun. Mae effeithiau cadarnhaol wedi eu hadnabod ar gyfer yr Amcanion SEA sy'n ymwneud â phoblogaeth ac iechyd pobl (cwrdd ag anghenion y dyfodol, diogelwch y gymuned ac iechyd pobl / byw'n iach), (llygru) y pridd, (ansawdd) yr aer, ffactorau hinsawdd (perygl llifogydd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr), asedau perthnasol, y</p>
--	--

dreftadaeth ddiwylliannol (yr amgylchedd hanesyddol a'r laith Gymraeg a'i diwylliant) a geoamrywiaeth.

Disgwylir mân effeithiau negyddol yng nghyswllt yr amcanion SEA sy'n ymwneud â bioamrywiaeth (cynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd dynodedig), poblogaeth ac iechyd pobl (niwsans a risg i iechyd pobl), y pridd (gwarchod pridd pwysig), dŵr (ansawdd a chyfaint) a'r tirlun. Mae mân effeithiau negyddol cronnus sydd wedi'u hadnabod yn yr asesiad yn adlewyrchiad o gyfuniad o bolisiau a fyddai'n caniatáu datblygu safleoedd a ddyrannwyd (h.y. polisiau H1, E1 a E3), a pholisiau a fyddai'n caniatáu datblygu sydd â'r potensial i effeithio ar safle dynodedig (h.y. polisiau TD3 a M1).

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol mawr, ansicr na niwtral ar unrhyw un o'r amcanion SEA.

O ran y mân effeithiau negyddol yn erbyn rhai o'r amcanion SEA, y casgliad a gyrhaeddwyd yw y gellir lliniaru'n gynhwysfawr yn erbyn y rhain gyda'r gyfres o bolisiau Rheoli Datblygu yn y CDLI Adnau Drafft ac a aseswyd fel rhai a fyddai'n cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar bob un o'r amcanion SEA.

O ran y mân effeithiau negyddol cronnus o ganlyniad i'r polisiau tai a chyflogaeth, mae Polisi DM1 yn lliniaru yn erbyn unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys cynefinoedd a safleoedd dynodedig, pridd, dŵr a thirlun sy'n gysylltiedig â phob datblygiad. Hefyd, mae Polisi DM2(10) yn delio ag amwynder a niwsans. Felly, wrth ystyried y dull polisi gyda'r cynllun (mewn cyfuniad), ystyrir y bydd y mân effeithiau andwyol yn erbyn yr amcanion SEA a fyddai'n codi o'r polisiau tai a chyflogaeth arfaethedig yn cael eu lliniaru'n ddigonol drwy'r gyfres o bolisiau Rheoli Datblygu, ac nid oes angen unrhyw liniaru pellach."

Drafft Adnau y CDLI gyda Newidiadau Penodol (Ionawr 2016) a'r Newidiadau Penodol Ychwanegol (Hydref 2016)

Yn dilyn ymgynghori ar Ddrafft Adnau y CDLI, penderfynodd y Cyngor Sir wneud Newidiadau Penodol i'r Cynllun. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys:

- cynnwys adran ar bolisi strategol i gadarnhau beth yw strategaeth y Cynllun;
- ail-ddrafftio'r adran ar reoli datblygu;
- gofyniad tai, targed tai fforddiadwy a ffigur darpariaeth tai diwygiedig, ar ôl ystyried y sylwadau a dderbyniwyd a thystiolaeth bellach;
- gofyniad tir cyflogaeth diwygiedig, ar ôl asesiad pellach o safleoedd;

- diwygiadau i amrywiol bolisiau a'r cyfiawnhad rhesymegol drostynt; a
- newidiadau i'r dyraniadau tai, yn enwedig yn ardal Ystradgynlais.

Cafodd Drafft Adnau y CDLI yn ymgorffori'r newidiadau hyn ei asesu a chyflwynwyd y canfyddiadau yn Adroddiad Amgylcheddol Ionawr 2016.

Yn dilyn Cyfarfod Archwiliadol a gynhaliwyd ar 10 Mai 2016, ysgrifennodd yr Arolygydd Cynllunio penodedig at y Cyngor Sir ar 25 Mai 2016 yn egluro ei phenderfyniad i ohirio'r Archwiliad am chwe mis er mwyn rhoi amser i'r awdurdod baratoi tystiolaeth ychwanegol. Ar ôl cyflawni'r gwaith ychwanegol, bu'r Cyngor Sir yn ymgynghori ar y Newidiadau Penodol Ychwanegol i'r CDLI. Roedd y prif newidiadau yn cynnwys:

- diwygio'r adran Strategaeth i fod yn fwy eglur ac i gynnwys polisiau strategol ychwanegol ac ar wahân;
- ail-ddrafftio'r adran ar reoli datblygu;
- ffigur darpariaeth tai a tharged tai fforddiadwy diwygiedig;
- cynnwys Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer cynlluniau gwynt a solar PV (ar sail Asesiad Ynni Adnewyddadwy a wnaed yn Awst 2016);
- ymgorffori dyraniadau safle yn y polisiau perthnasol;
- diwygiadau i amrywiol bolisiau a'r cyfiawnhad rhesymegol drostynt;
- cynnwys polisiau newydd, gan gynnwys diogelu llwybr ffordd osgoi'r Drenewydd;
- dileu polisiau'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol; a
- diwygio dyraniadau safle o ran eu dwysedd a chyflwyno safleoedd a ymrwymwyd yn flaenorol (Banc Tir ar gyfer Tai).

Cafodd Drafft Adnau y CDLI yn ymgorffori'r Newidiadau Penodol a'r Newidiadau Penodol Ychwanegol uchod hefyd ei asesu a chyflwynwyd y canfyddiadau yn Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016. **(LDP40)**

Roedd yr asesiad o'r CDLI yn y camau hyn yn ystyried yr un agweddau ar y Cynllun ag Adroddiad Amgylcheddol 2015 gan gyrraedd yr un casgliadau cyffredinol. **(LDP09)**

Asesiad Amgylcheddol Strategol o Bolisi RE1 diwygiedig (Mai 2017)

Adolygwyd Diweddariad Hydref 2016 o Asesiad Ynni Adnewyddadwy Powys yng ngwanwyn 2017. Yn sgil yr adolygiad diwygiwyd y Polisi Ynni Adnewyddadwy RE1. Roedd y newidiadau i Bolisi RE1 yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol, a cyhoeddwyd y canlyniadau yn Atodiad 2 o'r Datganiad Sefyllfa Ynni Adnewyddadwy (Mai 2017), **(ED061)**. Roedd yr asesiad hwn yn ystyried nad oedd y diwygiadau

arfaethedig i'r Polisi yn effeithio'n sylweddol ar gasgliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol blaenorol (Hydref 2016).

Y Fersiwn Gyfansawdd gyda Newidiadau o'r Materion yn Codi (Medi 2017)

Yn dilyn ymgynghori ar y Newidiadau Penodol Ychwanegol, cynhaliwyd cyfres o Sesiynau Gwrandawriad dros gyfnod o 17 wythnos gan ddechrau ar 28 Mawrth 2017. Yna bu'r Cyngor yn ymgynghori ar nifer o newidiadau arfaethedig a ddeilliodd o ganlyniad i faterion yn codi yn y Sesiynau Gwrandawriad; cafodd y newidiadau hyn eu gosod allan yn Atodlen CDLI Powys o Newidiadau o'r Materion yn Codi (MAC) (Medi 2017) a'u hadlewyrchu yn Fersiwn Gyfansawdd y CDLI yn ymgorffori'r Newidiadau o Ganlyniad i Faterion yn Codi (Medi 2017). Cynigiwyd cyfanswm o 204 o newidiadau MAC; dyma'r prif newidiadau:

- diwygiadau i eiriad polisïau a / neu i'r testun ategol;
- dileu a / neu uno polisïau;
- cynnwys polisïau newydd; a
- newidiadau i ddyraniadau safle arfaethedig.

Paratowyd Adendwm i Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016. Roedd hwn yn cynnwys asesiad o effeithiau sylweddol tebygol y newidiadau MAC er mwyn diweddarau Adroddiad Amgylcheddol SEA Hydref 2016 fel y bo'n briodol ac i sicrhau bod holl effeithiau sylweddol tebygol y CDLI wedi cael eu hadnabod, disgrifio a'u gwerthuso. Roedd yr asesiad hwn yn cadarnhau bod casgliadau Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016 yn ddilys o hyd ac na chafodd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol tebygol pellach eu hadnabod. **(ED083f)**

Mawrth 2018 Adroddiad yr Arolygydd;

Ar ôl i'r Sesiynau Gwrandawriadau ddod i ben, cyhoeddodd yr Arolygydd penodedig ei hadroddiad ar yr archwiliad o'r CDLI. Roedd Atodiad B i Adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys Newidiadau yr Arolygydd o'r Materion yn Codi (IMACs) er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gadarn. Yn dilyn hynny, paratowyd atodiad ychwanegol i'r Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016 ac roedd hwn yn cynnwys asesiad o effeithiau arwyddocaol tebygol o'r IMACs er mwyn diweddarau'r Adroddiad Amgylcheddol SEA 2016 a sicrhau bod yr holl effeithiau arwyddocaol tebygol o'r CDLI mabwysiedig, terfynol wedi cael eu dynodi, eu ddisgrifio a'u gwerthuso. Cadarnhaodd yr asesiad hwn bod casgliadau'r Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016 yn parhau'n ddilys ac ni ddynodwyd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol tebygol ychwanegol.

(Mae Asesiad 2018 o'r IMACs ar gael o dudalen gwe y CDLI Mabwysiedig y Cyngor)

Fel y dywedwn uchod, mae'r SEA wedi cael ei gyflawni'n ailadroddus wrth ddatblygu'r CDLI ac wedi helpu i dywys cyfeiriad strategol y Cynllun. Yn enwedig, mae canfyddiadau'r Asesiad

	<p>SEA o'r CDLI ar y gweill a'r opsiynau rhesymol eraill wedi goleuo penderfyniadau'r Cyngor ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • faint o dwf y dylid caniatáu ar ei gyfer yn y Sir dros gyfnod y Cynllun; • dosbarthiad cyffredinol y twf hwnnw ar draws y Sir (y strategaeth ofodol); • y safleoedd sydd i'w dyrannu yn y CDLI er mwyn ateb cwantwm y twf cyffredinol ar sail y strategaeth ofodol a ffafrir. <p>Drwy'r SEA, gwnaed nifer o argymhellion hefyd i atal, lleihau a chyn belled â phosib i wrthbwysio unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd sydd wedi'u hadnabod. Mae Tabl 6.9 yn Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016 yn cyflwyno crynodeb o'r argymhellion sy'n codi o'r SEA ynghyd â sut y cawsant eu hadlewyrchu yn y CDLI. Ni chafodd unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol eu nodi'n dilyn yr asesiadau pellach o'r newidiadau MAC.</p>
<p>D. Sut yr ystyriwyd safbwyntiau a barn o ganlyniad i ymgynghori</p>	<p>Mae'r gwaith o baratoi CDLI Powys wedi dilyn y broses o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a ddisgrifiwyd yn y Cytundeb Cyflwyno oedd hefyd yn ymgorffori'r Cynllun Cynnwys y Gymuned. (LDP05)</p> <p>Mae Adroddiad Ymgynghori (ED092) wedi'i gynhyrchu'n disgrifio'r holl weithgareddau ymgysylltu a'r sylwadau a dderbyniwyd. Yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd), mae'r Adroddiad hwn yn crynhoi pob cam o baratoad y CDLI a'r asesiadau a'r arfarniadau a oleuodd ei ddatblygu;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y camau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd i ymgynghoriad. • Pwy a gymrodd ran ac a gyfrannodd. • Cyfanswm y sylwadau a dderbyniwyd o'r broses ymgynghori a dadansoddiad ohonynt (sylwadau, sylwadau o blaid, yn erbyn, sylwadau heb eu gwneud yn briodol). (Dalier sylw: mae hyn hefyd yn cynnwys barn a fynegwyd am yr SEA ac Asesiadau eraill a wnaed) • Crynodeb o'r prif faterion yn codi yn y sesiynau ymgysylltu, ymgynghori ac yn y sylwadau hynny. • Argymhellion ynghylch sut y mae'r Cyngor yn ystyried y dylai'r CDLI roi sylw i'r prif faterion. • Argymhellion ynghylch sut y mae'r Cyngor yn ystyried y dylai'r CDLI roi sylw i bob un o'r sylwadau unigol a dderbyniwyd (ynghlwm fel atodiadau). • Unrhyw wyro o'r Cynllun Cynnwys y Gymuned, gan gynnwys cyfiawnhad. <p>Yn dilyn ymgynghori ar gwmpas yr SEA yng Ngorffennaf 2011, paratowyd a chyhoeddwyd Adroddiadau Amgylcheddol ar gyfer ymgynghori ar bob un o brif gamau'r CDLI, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y CDLI Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffefrir) (Mawrth 2012);

	<ul style="list-style-type: none"> • Drafft Adnau Cychwynnol y CDLI (Gorffennaf 2014); • Drafft Adnau y CDLI (Mehefin 2015); • Y Newidiadau Penodol i'r Drafft Adnau y CDLI (Ionawr 2016); • Drafft Adnau y CDLI (gyda Newidiadau Penodol a'r Newidiadau Penodol Ychwanegol) (Hydref 2016); • Y Fersiwn Gyfansawdd gyda Newidiadau o'r Materion yn Codi (Medi 2017). <p>Mae'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ac Atodiad 5 o Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016 hefyd yn nodi'r holl farn a safbwyntiau a fynegwyd am Adroddiad Cwmpasu'r SEA a'r Adroddiadau Amgylcheddol a baratowyd wedyn ar gyfer pob cam o baratoi'r Cynllun.</p>
<p>E. Sut yr ystyriwyd canlyniadau unrhyw ymgynghori trawsffiniol</p>	<p>Nid yw'r SEA wedi canfod bod CDLI Powys yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar amgylchedd un o Wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd. Gan hynny, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghori trawsffiniol o dan Reoliad 14 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.</p>
<p>F. Y rhesymau dros ddewis y CDLI mabwysiedig, yng ngoleuni'r opsiynau rhesymol eraill a ystyriwyd</p>	<p>Mae proses yr SEA wedi goleuo penderfyniadau'r Cyngor ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • faint o dwf y dylid caniatáu ar ei gyfer yn y Sir dros gyfnod y Cynllun; • dosbarthiad cyffredinol y twf hwnnw ar draws y Sir (y strategaeth ofodol); • y safleoedd sydd i'w dyrannu yn y CDLI er mwyn ateb y twf cyffredinol ar sail y strategaeth ofodol a ffafrir. <p>Mae Adran 2 o Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016 yn disgrifio esblygiad y CDLI. Mae'n gosod allan yr opsiynau a ystyriwyd yn y camau o baratoi'r CDLI Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffafrir), Drafft Adnau Cychwynnol y CDLI, a Drafft Adnau y CDLI gan roi'r rhesymau pam na symudwyd ymlaen gyda rhai opsiynau. Mae Adran 6 o'r adroddiad yn egluro'n glir pam y cafodd yr opsiynau a ffafrir eu dewis a pham y gwrthodwyd opsiynau rhesymol eraill ar gyfer twf tai, tir cyflogaeth a dosbarthiad dyraniadau safle a datblygu. (LDP40)</p> <p>Twf Tai</p> <p>Ystyriwyd ystod o opsiynau twf tai wrth baratoi'r CDLI ac a aseswyd drwy broses yr SEA. Mae targed y CDLI (darpariaeth ar gyfer 5,596 o dai (wedi'i ddiwygio i lawr i 5,588 o dai gan yr Arolygydd (wele IMAC2 yn Atodiad B i Adroddiad yr Arolygydd))) i ddarparu gofyniad ar gyfer 4,500 o dai) yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r data diweddaraf ac yn nifer y mae'r Cyngor yn ei ystyried i fod yn briodol, diweddar, hyfyw a darparadwy. Bydd y lwfans hyblygrwydd o 24% hefyd yn helpu i sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ar gael dros gyfnod y Cynllun i ateb yr</p>

	<p>angen am dai ac i ddangos cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai. Er yn ffigur darparu is na'r hyn oedd mewn golwg yn y Newidiadau Penodol i Ddrafft Adnau y CDLI (6,129 o dai), mae'n adlewyrchu'r dystiolaeth a'r data lleol diweddaraf ar y cyflenwad a'r galw am dai a pha mor realistig yw eu darparu, a byddai'n cefnogi darparu strategaeth y CDLI.</p> <p>Tir Cyflogaeth Ystyriwyd ystod o opsiynau tir cyflogaeth wrth baratoi'r CDLI ac a aseswyd drwy broses yr SEA. Dangosodd hyn mai opsiwn mwy o dwf cyflogaeth, pe bai'n cael ei reoli'n briodol o ran ei ddsbarthiad gofodol a thrwy liniaru'r effeithiau tebygol ar yr amgylchedd, sy'n cynnig y cyfle gorau o gydbwysio effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol. Mae targed y CDLI o 45ha felly'n taro cydbwysedd rhesymol a chytbwys rhwng yr opsiynau a ystyriwyd, er yn gofyn targedu datblygiadau'n ofalus (yn ofodol ac yn ôl math) i osgoi effeithiau andwyol lleol penodol. Mae safleoedd ar gael i'w datblygu fydd yn gallu darparu ar gyfer y twf hwn gan gefnogi strategaethau adfywio sirol a rhanbarthol ynghyd ag amcanion y Cyngor o hyrwyddo twf cynaliadwy mewn lleoliadau priodol ar draws Powys.</p> <p>Dosbarthiad Datblygiad Mae'r asesiad o'r opsiynau gofodol a ystyriwyd wrth baratoi'r CDLI wedi dangos bod yr opsiynau gydag elfen o hierarchaeth aneddiadau'n debygol o gael effeithiau mwy cadarnhaol, yn enwedig drwy atgyfnerthu'r cryfderau presennol a helpu i ddal dirywiad aneddiadau'n ôl. Ond yn yr un modd, gallai fod angen mesurau i liniaru yn erbyn yr effeithiau negyddol a allai godi, fel effeithiau ar fioamrywiaeth leol. O ganlyniad, ystyrir bod strategaeth ofodol y CDLI (gan ddsbarthu dyraniadau rhwng trefi a phentrefi mawr) yn un resymol er y bydd angen, mae'n debyg, rhoi sylw manwl i liniaru effeithiau penodol mewn rhai ardaloedd.</p> <p>Dyraniadau Safle Mae Atodiad 3c i Adroddiad Amgylcheddol Hydref 2016 yn cyflwyno canfyddiadau'r asesiadau safle ym mhob anheddiad, gan roi'r rhesymau dros ddewis y dyraniadau safle a ffafirir a thros wrthod opsiynau eraill.</p>
<p>G. Y mesurau sydd i'w cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithrediad y cynllun</p>	<p>Bydd Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) CDLI Powys yn cynnwys monitro effeithiau sylweddol gweithrediad y Cynllun, fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau SEA. Bydd canlyniadau monitro'r effeithiau mwy hirdymor hyn ar adnoddau a materion amgylcheddol ehangach yn adnabod unrhyw effeithiau annisgwyl o weithredu'r CDLI yn ddigon buan fel y gellir cymryd camau priodol i'w cywiro.</p> <p>Bydd yr AMR yn cynnwys y fframwaith monitro a grewyd fel rhan o broses yr SEA ac a gyflwynir yn Atodiad 4 i'r Adendwm at Adroddiad Amgylcheddol Medi 2017. (ED083f)</p>

Gwybodaeth Bellach

Gallwch gysylltu y Cyngor ar y manylion isod os hoffech ofyn cwestiwn neu dderbyn mwy o wybodaeth am y CDLI;

Drwy E-bostio: ldp@powys.gov.uk

Drwy'r Post: Y Tîm Polisi Cynllunio, Cyngor Sir Powys, Llandrindod, LD1 6AA.

Drwy Ffonio: 01597 826000